

GWAITH IEUENCTID A'R GYMRAEG

LLAWLYFR DULLIAU ac ADNODDAU

**AR GYFER GWEITHWYR
GWAITH IEUENCTID
YNG NGHYMURU**

Mehfin 2012

Trosolwg

Mae'r llawlyfr hwn wedi cael ei ddatblygu i gyflwyno, egluro neu ymhelaethu ar wybodaeth a phrofiad cyfredol mewn perthynas â darparu gwasanaethau ieuentid sy'n cael eu cyflwyno, neu y gellir eu cyflwyno, trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc. Wrth geisio cyflawni'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc gan ganolbwyntio ar y ddogfen 'Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion' sydd ar fin disodli'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuentid yng Nghymru a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuentid yng Nghymru, mae'r ddogfen hon yn annog ystyriaeth o'r modd gorau o ddiwallu anghenion y bobl ifanc hynny gyda'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac yn annog y sawl gydag iaith gyntaf wahanol i'w ddefnyddio. Mae hefyd yn annog ymgorffori diwylliant cyfoethog Cymru i mewn yn narpariaeth gwaith ieuentid.

Mae'r llawlyfr hwn yn deall nad oes gan bob lleoliad gwaith ieuentid staff sy'n siarad Cymraeg tra bod gan lawer o bobl ifanc sy'n eu mynychu o leiaf rhywfaint o Gymraeg llafar ac ysgrifenedig o'r ysgol, y gymuned neu gefndir teuluol. Mae'r llawlyfr yn cynnig cymorth ymarferol a syniadau i helpu gweithwyr fynd i'r afael â'r iaith Gymraeg o'r safbwynt eu bod erioed wedi gwneud hynny o'r blaen er mwyn cyflwyno'u gwaith ieuentid yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nid bwriad y syniadau a'r farn a fynegir yn y llawlyfr hwn yw rhoi modd rhagnodol o gyflwyno darpariaeth ieuentid trwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn hytrach i awgrymu dulliau ac ymagweddau wrth ystyried gwaith o'r fath. Mae arfer gwaith ieuentid da yn disgwyl i weithwyr addasu unrhyw fodel neu ideoleg i gwrdd ag anghenion y buddiolwyr yn y modd gorau a, lle bo hynny'n bosibl, i rannu dulliau newydd a syniadau ymarferol gydag eraill er budd pobl ifanc yn fwy cyffredinol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o lyfrgell Dulliau Arfer Da a Llawlyfrau Adnoddau ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru. Fe'ch anogir i ddarllen y llawlyfrau eraill am lu o adnoddau ymarferol sy'n gwella arferion gwaith ieuentid i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl ifanc yng Nghymru.

Bydd y gwaith yn werth chweil ar gyfer pobl ifanc, staff a gwirfoddolwyr, rhai sy'n siarad Cymraeg a Saesneg, os yw'n cael ei wneud gyda brwdfrydedd ac ymrwymiad. Bydd yn galluogi pobl ifanc a staff i wybod mwy am eu diwylliant Cymreig a bod yn falch o'r lle y maent yn hanu ohono neu ble maent yn byw.

Hwyl Fawr!!!

Diolchiadau

Awduron a'r Tîm Golygyddol:

Dai Bryer

Urdd Gobaith Cymru

Gareth Jones

Gwasanaeth Ieuentid Abertawe

John Reaney

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuentid Gwirfoddol

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Mapio'r gwasanaeth	6
• Pobl Ifanc	6
• Staff	6
• Lleoliadau Gwaith Ieuenctid	7
Chwalu'r Rhwystrau	8
• Hyder	8
• Staff	9
• Pobl Ifanc	9
• Cyfieithu	10
Gweithgareddau Ymarferol	11
• Enillion Cyflym	11
○ Trafod defnydd o'r Gymraeg	11
○ Mapio	11
○ Bathodyn Siaradwr Cymraeg	11
○ Cymraeg Achlysurol	11
○ Enwau Lleoedd	13
○ Cyflwyniadau a Chystadlaethau	14
○ Sesiwn ar y Gymraeg ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol	14
○ Bingo Pobl - Bingo Cymraeg	14
○ Gêm Gyfieithu	15
• Tymor Hwyl	15
○ Cysylltu â Grŵp Ieuenctid Cymraeg	15
○ Dosbarth Cymraeg	15
○ Eisteddfodau	16
○ Y Gymraeg ar yr Agenda	16
○ Sefydlu Polisi Iaith Gymraeg	16
○ Fforwm Datblygu Ieuenctid	16
○ Sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	16
○ Sesiynau Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol	17
○ Gweithio gyda'r URDD	17
○ Gwobr Dug Caeredin	18
○ Cyfranogiad	18
○ Chwaraeon	19

○ Addysg Awyr Agored	19
○ Hyfforddiant	19
○ Cyflogaeth	20
○ Cyfnewidiadau leuenctid Rhyngwladol	20
○ Gwefannau	20
Creu'r Awyrgylch	21
Enghreifftiau o Arfer Da	22
Adnoddau	24
Cysylltiadau Cymraeg yn y maes Gwaith leuenctid	25

Cyflwyniad

Noda 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddor a Dibenion' ei fod: "yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth yr iaith Gymraeg a'r angen i hyrwyddo ei ddefnydd". Darperir neu cefnogir darpariaeth ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar draws Cymru gan nifer o wahanol sefydliadau yn y sectorau statudol a gwirfoddol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn darparu clybiau ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac yn gweithio gydag Ysgolion Cyfun cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan adlewyrchu anghenion iaith pobl ifanc yn eu cymunedau. Mae Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith, y Ffermwyr Ifanc a nifer o sefydliadau eraill yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu a dysgu sgiliau newydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae iaith hefyd yn elfen hanfodol o ddiwylliant cenedlaethol a chaiff syniadau ar ddathlu diwylliant Cymru eu cynnwys hefyd.

Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae 20.8% o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg gyda 37.4% o'r boblogaeth 10 - 19 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan gynyddol bwysig o hunaniaeth person ifanc ac mae'r llawlyfr hwn yn cynnig ffyrdd i gefnogi gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys darparu rhai syniadau ymarferol ar sut y gall unrhyw leoliad gwaith ieuenctid gynnig cyfleoedd dwyieithog ac yn Gymraeg.

Aiff 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddor a Dibenion' ymlaen i ddatgan:

"Mae gwaith ieuenctid da yn darparu pob person ifanc gyda chyfleoedd, yn gallu eu cefnogi drwy ddatblygiadau arwyddocaol yn eu bywydau, yn eu cynorthwyo i ddeall eu hawliau ac yn eu hannog i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau" mewn cyd-destun sy'n "cydnabod bod Cymru yn wlad ag amrywiaeth o ieithoedd a diwylliannau "

Yn ymarferol dylai gwaith ieuenctid:

- Hybu cyfleoedd a mynediad i bob person ifanc ni waeth am eu hil, rhyw, hunaniaeth rywiol, iaith, crefydd, anabledd, oedran, cefndir neu amgylchiadau personol;
- Cydnabod pwysigrwydd a gwerth yr iaith Gymraeg a'r angen i hyrwyddo ei ddefnydd "

Mae'r llawlyfr hwn ar gyfer awdurdodau lleol, cyrff cenedlaethol a'r mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac sy'n awyddus i ddatblygu darpariaeth iaith Gymraeg a dathlu diwylliant Cymreig o fewn eu lleoliadau penodol. Efallai y bydd hyn yn heriol i rai sefydliadau a bydd y canllaw hwn yn helpu i roi syniadau a dyheadau ar waith.

Mapio'r Gwasanaeth

Pobl Ifanc

Wrth geisio datblygu darpariaeth Gymraeg, man cychwyn da yw asesu a mapio allan beth mae eich sefydliad, pa bynnag fath ydyw, yn cynnig ar hyn o bryd. Efallai bydd nifer o siaradwyr Cymraeg ifanc yn amharod i siarad Cymraeg yn yr hyn maent yn ei weld fel lleoliad gwaith ieuencid traddodiadol, Saesneg neu ble mae siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif. Fodd bynnag, mae'n bosib fod nifer o'r bobl ifanc hyn yn siarad Cymraeg neu gall fod nifer o siaradwyr Cymraeg a fyddai'n hoffi gwneud defnydd o'ch darpariaeth ond nad ydynt yn gwneud.

- A yw'r ddarpariaeth yn gwybod pa aelodau sy'n siarad Cymraeg?
- Sut y bydd yn cael gwybod?
- A oes rhywle i gofnodi hyn ar gofnodion aelodaeth?
- A yw'n gwybod aelodau o ba ysgol sy'n mynychu neu sy'n bresennol ac a fydd hyn yn awgrymu a ydynt yn debygol o siarad Cymraeg?
- A yw'n gwybod os yw aelodau yn siarad Cymraeg gartref?

Trwy ofyn y cwestiynau hyn efallai y byddwch yn darganfod beth mae pobl ifanc ei angen a'i eisiau yn y ddarpariaeth, uwchben a thu hwnt i'r atebion eu hunain.

Gallai cael gwybodaeth ar y nifer o bobl ifanc a faint o bobl ifanc yn y gymuned neu yn y sir sy'n siarad Cymraeg fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio gweithgareddau, gwneud ceisiadau am arian, neu weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gwahanol.

Staff

Os oes gan leoliad gwaith ieuencid staff, cyflogedig a di-dâl, sy'n gyfforddus yn siarad Cymraeg, dylai gynllunio sut i'w cefnogi i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn Gymraeg a rhoi gwybod i bobl ifanc eu bod yn siarad Cymraeg. Mae gwisgo fathodyn i ddangos eu bod yn ddwyieithog yn lle syml ac effeithiol i gychwyn. Dylai'r lleoliad wybod:

- Pa sgiliau iaith Gymraeg sydd gan y staff
- Pa staff sy'n siaradwyr Cymraeg hyderus
- Pwy fyddai'n gyfforddus yn siarad Cymraeg gyda phobl ifanc
- Pwy sy'n siarad ychydig o Gymraeg ond heb yr hyder i'w defnyddio'n rhugl?

Gall staff sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg cael eu cefnogi i 'roi cynnig arni' a cheisio siarad ychydig o'r iaith yn y prosiect ieuencid. Gall pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg weithio gyda nhw i fagu hyder. Gallant roi cynnig ar weithgareddau syml megis gweithio y tu ôl i'r bar coffi gan ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig (ond yn cyfieithu ar gyfer y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg). Mae angen cefnogaeth ac anogaeth ar staff o'r fath i ddefnyddio eu Cymraeg yn y clwb ieuencid a bydd hyn yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ar yr un pryd â darparu gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.

Trwy drafod yr iaith Gymraeg gyda phobl ifanc, mae staff yn cyfrannu at natur ddwyieithog y gwaith ieuenctid. Mae aelodau'n cyfrannu'n gadarnhaol ato gan ddatblygu sgiliau staff sydd hefyd yn datblygu perchnogaeth y bobl ifanc.

Lleoliadau gwaith ieuenctid

Disgrifir yr amrywiol lleoliadau ar gyfer gwaith ieuenctid yn y Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru (2007)

http://wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/extendingentitlement/youthservice/youthservice/nationalyouthstrategyw.pdf?lang=cy

Mae'r lleoliadau hefyd yn cael eu henwi yn 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion' (Adran 3 P8,) sydd, ar adeg cynhyrchu'r ddogfen hon, ar fin mynd i'r wasg

Beth bynnag y math o waith ieuenctid sydd ar gael i bobl ifanc yn y lleoliadau hyn e.e. gwaith cerddoriaeth a'r celfyddydau; chwaraeon; sgiliau sylfaenol; Gwobr Dug Caeredin; gweithgareddau awyr agored ac antur; hyfforddiant; gwybodaeth a chyngor; cyfranogiad; TG; cyfnewidfeydd ieuenctid, bydd cymorth ar gael i'w cyflwyno yn Gymraeg. Gall datblygu darpariaeth yn yr iaith Gymraeg o fewn y lleoliadau hyn ofyn am gynllunio a pharatoi ychwanegol a gall fod yn fuddiol i weithio mewn partneriaeth â sefydliad sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.

Bydd yn ddefnyddiol gwybod:

- Y sefydliadau ieuenctid Cymreig sy'n gweithredu o fewn y gymuned
- Yr ysgolion Cymraeg lleol
- Y dosbarthiadau Cymraeg sydd ar gael
- Syniadau gall ddeillio o bobl ifanc drwy weithio gyda sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn genedlaethol megis yr Urdd

Mae'r iaith Gymraeg yn offeryn cadarnhaol ar gyfer rhyngweithio gyda phobl ifanc a bydd defnyddio'r iaith yn ehangu'r 'cynnig' sydd ar gael i bobl ifanc a gallai hyn olygu bod mwy o bobl yn dod i'ch lleoliad ieuenctid.

Chwalu'r Rhwystrau

Gall fod nifer o rwystrau sydd wedi cyfyngu ar ddarparu gwaith ieuentid yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gall rhai ohonynt fod yn real ac eraill llai felly. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o rai heriau posibl a sut y gellid mynd i'r afael â nhw.



Hyder

Mae yna adegau pan na fydd sefydliad yn meddu ar yr hyder i gyflwyno gwaith yn Gymraeg neu i gynnwys rhywfaint o Gymraeg yn yr hyn mae'n ei ddarparu. Yn y bennod flaenorol trafodwyd mapio'r gwaith o ran staff, pobl ifanc a'i leoliad. Mae hyn yn dechrau trafodaeth am yr hyn mae'n bosibl ei darparu dros y tymor byr a'r hyn a allai fod yn angenrheidiol i ddatblygu darpariaeth dros gyfnod hirach.

Nid yw cyflwyno'r iaith Gymraeg yn golygu gorfod dechrau o'r dechrau ac ailfeddwl popeth. Mae'n golygu rhoi cynnig ar bethau, gan ddechrau'n fach, ond yn ceisio prif ffrydio'r iaith Gymraeg yn y rhaglen o gyfleoedd i bobl ifanc a staff. Mae hefyd yn golygu edrych ar yr hyn y gall cyfleoedd gwaith ieuentid Cymraeg neu ddwyieithog eu cynnig ac nid ar yr hyn y gallai ei gostio. Gellir ei wneud yn gymharol rad ac yn hawdd heb ormod o waith ychwanegol.

Ar ôl rhoi cynnig ar rywbeth, fodd bynnag, mawr neu fach, dylid ei werthuso, a yw wedi gweithio neu beidio. Bydd y weithred o werthuso yn rhoi hyder i bobl ifanc a staff. O'r gwerthusiad, bydd yn bosibl gweld pa newidiadau gallai fod eu hangen y tro nesaf. Dylid cynnwys y rhai nad oedd wedi cymryd rhan yn ogystal â'r rhai oedd wedi. Fel gyda phob agwedd o waith ieuentid, cofnodwch beth ddigwyddodd. Bydd yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio yn y dyfodol, oherwydd, os nad yw rhywbeth yn gweithio gydag un grŵp, nid yw'n golygu na fydd yn gweithio yn y dyfodol neu gyda grŵp arall o bobl ifanc neu mewn lleoliad arall. Hefyd, gyda ffyrdd newydd o wneud pethau mae weithiau angen 'arloeswyr' sy'n barod i roi cynnig arnynt felly gall pethau fod yn araf ar y cychwyn.

Staff

Ar ôl cwblhau mapio'r gwasanaeth, dylid darganfod pa rai o'r staff hynny sy'n siarad Cymraeg sy'n hapus i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc. Gall hyn ddibynnu ar y lleoliad, ond gall gweithio'n ofalus gyda'r aelod o staff arwain at gyfleoedd newydd cyffrous y gellir eu datblygu yn hawdd. Gall y staff sy'n siarad Cymraeg wisgo bathodyn sy'n dangos eu bod yn gallu siarad â phobl yn Gymraeg neu yn Saesneg a gall hyn annog siaradwyr Cymraeg ifanc i siarad â'r staff hynny yn Gymraeg. Gall hefyd annog y bobl ifanc nad ydynt yn siarad yn dda i siarad yr iaith nawr ac yn y man, i ddechrau fel tipyn o hwyl.

Os na fydd staff sy'n siarad Cymraeg yn hyderus yn ei ddefnyddio mewn sefyllfa gwaith ieuencid, efallai y bydd angen cefnogaeth ac anogaeth arnynt i gyflwyno'r iaith i mewn i'w gwaith. Efallai bod ganddynt yr un pryder a siaradwyr Cymraeg ifanc mewn sefyllfa Saesneg sef eu bod yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg pan mai Saesneg yw prif iaith y staff a phobl ifanc. Mae rhyngweithio gyda darparwyr gwaith ieuencid eraill trwy gyfrwng y Gymraeg yn helpu i gynyddu hyder staff. Os yw'r aelod o staff yn gweld defnyddio'r iaith Gymraeg fel sgil cadarnhaol sy'n gallu datblygu ei waith / gwaith, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg.

Os nad oes unrhyw staff â sgiliau iaith Gymraeg, gall y rhain dal i gael eu datblygu. Gall cael staff di-Gymraeg i arwain trafodaethau ar Gymru a'i diwylliant o fewn y lleoliad ac yn rhyngweithio'n bositif gyda phobl ifanc ar yr iaith Gymraeg chwalu'r rhwystrau rhwng yr ieithoedd. Gall hefyd arwain at drafodaethau ar ieithoedd a diwylliannau eraill.

Bydd sgiliau staff a'u parodrwydd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gwaith yn dangos faint y gellir ei gyflawni. Pan fydd staff yn gadarnhaol am ddefnyddio'r iaith, byddant yn datblygu'r ddarpariaeth mewn modd mwy cynhwysol ac yn fwy ymwybodol o ddiwylliannau.

Yn olaf, gellir cefnogi staff i gymryd mantais o gyrsiau iaith Gymraeg. Dylid eu hysbysebu o fewn y clwb neu sefydliad.

Pobl Ifanc

Mae rhai sefydliadau ieuencid yn gweld agwedd pobl ifanc tuag at yr iaith fel rhwystr. Er enghraifft, mae rhai pobl ifanc yn gweld yr iaith fel cyfrwng dysgu yn unig, ac mewn rhai achosion fel rhywbeth i'w ddefnyddio yn yr ysgol yn unig, p'un a yw'n ysgol cyfrwng Cymraeg ai peidio. Efallai na fyddant yn ei weld fel iaith pobl ifanc 'ar y stryd'. Er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn lleoliadau gwahanol o fewn y gymuned ac i annog pobl ifanc i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol, mae angen darparu cyfleoedd gwaith ieuencid i bobl ifanc allu mynegi eu hunain ac i ymchwilio ac archwilio eu hunaniaeth trwy iaith a diwylliant.

Mae gwaith ieuenctid da yn herio agweddau ac yn rhoi pŵer i bobl ifanc ddefnyddio eu hiaith yn gadarnhaol o fewn eu cymunedau. Mae rôl y gweithiwr ieuenctid mewn agweddau heriol yn hanfodol. Gall farn gadarnhaol am iaith a diwylliant gan weithwyr ieuenctid, os ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio, olygu fod pobl ifanc yn edrych ar yr iaith mewn golau gwahanol. I bobl ifanc, mae angen i'r dewis i ddefnyddio'r Gymraeg fod yn un cadarnhaol ac nid yn un anodd sy'n eu hynysu neu yn eu gwneud yn amharod i'w ddefnyddio.

Cyfieithu

Pan fydd yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn weladwy o fewn lleoliad gwaith ieuenctid, mae pobl ifanc yn dod yn fwy ymwybodol ohonynt.

Bydd Deddf yr Iaith Gymraeg yn effeithio ar yr holl ddarpariaeth os yw'n cael ei arwain gan awdurdod lleol neu'r sector wirfoddol drwy'r gofyniad i ddarparu arwyddion dwyieithog ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Bydd adrannau cyfieithu o fewn yr awdurdod lleol bydd yn gallu helpu gydag arwyddion, poster, polisïau a llenyddiaeth, a hefyd Swyddog Polisi Iaith Gymraeg i helpu gyda chyngor a chanllawiau ar sut i gyfieithu arwyddion ac ati.

Dechrau gyda phosteri ac arwyddion y mae pobl ifanc yn gweld yn aml, ac a all aros i fyny ar bob adeg sy'n cael yr effaith fwyaf. Ceisiwch bob amser i gael y cyfieithiad Saesneg yn agos at y geiriad Cymraeg fel bod siaradwyr uniaith Saesneg yn gallu gweld yn hawdd beth yw ystyr y gair Cymraeg a gallai hyn eu hannog i ddechrau defnyddio'r geiriau Cymraeg.

Gweithgareddau Ymarferol

Mae'r adran hon yn cynnig enghreifftiau o weithgareddau ac ymarferion y gellir eu defnyddio i gyflwyno a sefydlu cyfleoedd Cymraeg a dwyieithog o fewn sefyllfa mewn gwaith ieuenctid. Rhowch gynnig ar ychwanegu rhai eich hun neu addasu rhai nad ydynt wedi gweithio mor dda. Anfonwch syniadau i'w hychwanegu at y llawlyfr hwn.

Enillion Cyflym

Trafod defnydd o'r iaith Gymraeg

Pa broblemau y mae staff a phobl ifanc yn meddwl y gallent eu hwynebu? Pa syniadau sydd ganddynt? Anogwch amrywiaeth eang o feddwl wrth ddechrau'n fach a chymerwch ofal i werthuso gyda nhw.

Mapio

Ewch drwy'r syniadau ar fapio yn Adran 2 o'r Llawlyfr hwn.

Bathodyn siaradwr Cymraeg

Darparwch fathodyn syml sy'n dangos a yw staff neu bobl ifanc yn siarad Cymraeg a'u bod yn hapus i gynorthwyo eraill sydd angen cymorth gyda'r iaith. Bydd hyn yn dechrau gyda'r rhai mwyaf hyderus tra bod hyder unrhyw rai eraill sydd eisiau cynnig y gwasanaeth hwn yn cael ei gynyddu.

Cymraeg achlysurol

Un ffordd dda o gyflwyno'r iaith Gymraeg i mewn i waith ieuenctid yw dechrau datblygu geirfa Cymraeg a ddefnyddir yn rheolaidd ac ychwanegu ato. Gall hyn gael ei ddefnyddio ar gyfer siaradwyr di-Gymraeg i ddechrau defnyddio'r iaith ac i helpu siaradwyr Cymraeg deimlo'n hyderus i helpu eraill. Gellir defnyddio geiriau Cymraeg am rifau mewn gweithgaredd neu yn y bar coffi wrth roi newid yn rheolaidd.

Ymhlith y geiriau neu ymadroddion y gellir yn hawdd eu dwyn i mewn i sgwrs bob dydd mae:

bore da	<i>good morning</i>	prynhawn da	<i>good afternoon</i>
noswaith dda	<i>good evening</i>	nos da	<i>good night</i>
sut mae? Shw mae?	<i>how are you?</i>	hwyl	<i>cheers</i>
diolch	<i>thanks</i>	diolch yn fawr iawn	<i>thanks very much</i>
croeso	<i>welcome</i>	iechyd da!	<i>good health!</i>

croeso i Gymru *welcome to Wales*
da *good*

penblwydd hapus *happy birthday*
da iawn *very good*

Enwau lleoedd

Mae enwau lleoedd bob amser yn ddiddorol gan eu bod fel arfer yn cyfleu rhywbeth am hanes neu ddaearyddiaeth ardal sy'n gwneud i bobl ifanc ddechrau meddwl am ble maent yn dod o. Dyma enghreifftiau o hyn:

aber	<i>river mouth</i>	afon	<i>river</i>
bach, fach	<i>small</i>	ban, fan	<i>peak, crest</i>
blaen	<i>head, end, .source</i>	bryn	<i>hill</i>
bwlch	<i>pass</i>	caer, gaer	<i>fort, stronghold</i>
carreg	<i>stone, rock</i>	castell	<i>castle</i>
cefn	<i>ridge</i>	clawdd	<i>hedge, ditch, dyke</i>
coch, goch	<i>red</i>	craig, graig	<i>rock</i>
crib	<i>crest, summit, ridge</i>	cwm	<i>valley, cirque</i>
cymer	<i>meeting of rivers</i>	dinas	<i>fort, city</i>
du, ddu	<i>black</i>	dyffryn	<i>valley</i>
eglwys	<i>church</i>	ffin	<i>boundary</i>
glyn	<i>glen</i>	heol	<i>road</i>
gwaun, waen	<i>moor, mountain pasture</i>	llan	<i>church, enclosure</i>
hendre	<i>winter dwelling, permanent home</i>	llyn	<i>lake</i>
llwyn	<i>grove, bush</i>	llys	<i>hall, court</i>
maen	<i>stone</i>	mynydd, fynydd	<i>mountain</i>
mawr, fawr	<i>great, big</i>	merthyr	<i>martyr</i>
moel, foel	<i>bare hill</i>	pont, bont	<i>bridge</i>
pant	<i>hollow, valley</i>	pen	<i>head, top, end</i>
pentre	<i>village, homestead</i>	plas	<i>hall, mansion</i>
sarn	<i>causeway, old road</i>	tre, tref	<i>hamlet, home, town</i>
uchaf	<i>upper, higher, highest</i>	ystrad	<i>valley floor</i>



Cyflwyniadau a Chystadlaethau

Pan fydd cyflwyniadau neu bartïon yn cael eu cynllunio, yn enwedig gyda lluniaeth a gyda phwysigion lleol yn cael eu gwahodd, gellir eu cyflwyno yn ddwyieithog. Gellir gwahodd y bobl ifanc i berfformio, fel rhan o'r digwyddiad, yn Gymraeg. Gallai hyn hefyd gynnwys perfformiad cerddorol neu Twmpath dawns neu ceilidh Cymraeg fel rhan o'r noson. Gellir hefyd cynnal cystadlaethau trwy gydol y flwyddyn i bobl ifanc mewn chwaraeon, cerddoriaeth, dawns a'u gwneud yn ddwyieithog.

Sesiwn ar y Gymraeg ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

Mae angen cynllunio sesiynau'n dda a gall hyn gynnwys gofyn i bobl ifanc am beth maen nhw'n meddwl pan fyddant yn meddwl am Gymru. Gellir defnyddio lluniau a gofyn i bobl ifanc ddewis pa lun sy'n cynrychioli Cymru a hefyd yr hyn y maent yn credu y byddai pobl eraill yn meddwl am Gymru. Gall yr amrywiaeth o luniau a delweddau gynnwys rhai traddodiadol a rhai sy'n llai traddodiadol. Gallwch wedyn drafod pam fod y person wedi dewis y llun hwnnw. Paratowch ychydig o ffeithiau diddorol am Gymru a'r iaith Gymraeg i'w 'taflu i mewn' er mwyn cychwyn y drafodaeth.

Gellir cynnal prosiect celf lle mae gofyn i bobl ifanc gynhyrchu poster neu ddarnau o gelf sy'n diffinio Cymru iddyn nhw. Rhwch nhw ar waliau neu hysbysfyrdau er mwyn i eraill allu edrych arnynt a'u trafod.

Bingo Pobl - Bingo Cymraeg

Mae Bingo Pobl yn ffordd wych o gymysgu grwpiau i fyny a chael pobl ifanc i ryngweithio â'i gilydd yn enwedig os nad ydynt yn adnabod ei gilydd yn dda. Ceisiwch gynnwys yr iaith Gymraeg a chwestiynau diwylliant o fewn y gêm, megis: -

Dewch o hyd i 2 berson sy'n gwybod y gair Cymraeg am ysgol.

Dewch o hyd i 3 pherson sy'n gallu canu anthem genedlaethol Cymru.

Llinell Barn

Eglurwch i bobl ifanc bod yr ystafell yn offeryn i ganfod eu barn. Ar un pen mae'r ardal 'cytuno'n gryf' ac ar y pen arall mae'r ardal 'anghytuno'n gryf'. Gallant roi eu hunain unrhyw le yn hyd yr ystafell yn dibynnu ar gryfder eu teimladau.

Rhowch gynnig ar ddefnyddio rhywbeth ysgafn iawn i ddechrau neu efallai rhywbeth lle byddai'r rhan fwyaf yn debygol o fod i gyd ar un ochr neu'r llall.

Wrth fod y bobl ifanc yn cynhesu gall y gweithiwr ieuentid ddefnyddio datganiadau megis "yr iaith Gymraeg yw iaith Cymru" neu "Rwy'n falch o fod yn Gymro"; neu "Defaid yw'r ddelwedd o Gymru" ac ati.

Trafodwch ymatebion y bobl ifanc a'r rhesymau pam mae pobl o'r farn honno heb o reidrwydd nodi fod hynny'n gywir neu'n anghywir, neu hyd yn oed leisio eich barn eich hun.

Gêm Gyfieithu

Gweithgaredd hawdd i gael pobl i symud a chystadlu yw rhannu'r bobl ifanc sydd gennych yn 2 dîm. Defnyddiwch siart bapur neu fwrdd gwyn a rhoi geiriau Cymraeg ar un ochr i'r ddau dîm yna gweiddwch eiriau yn Saesneg ac mae'n rhaid i'r bobl ifanc redeg at y bwrdd a rhoi croes trwy'r gair Cymraeg cyfatebol. Y tîm sy'n rhoi croes trwy'r mwyaf o eiriau yn gywir neu sy'n rhoi croes trwy'r gair yn gyntaf sy'n ennill. Bydd unrhyw bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn eich prosiect yn boblogaidd yn y gêm hon.

Tymor Hwyl

Cysylltu â Grŵp Ieuentid Cymraeg

Pan fydd y grŵp yn un sy'n gweithio drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, dylech gynllun i weithio gyda grŵp ieuentid sy'n siarad Cymraeg ar noson arbennig o weithgareddau lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio. Trefnwch weithgareddau, cystadlaethau, pethau hwylus a chymysgu'r bobl ifanc yn grwpiau gwahanol. Trefnwch daith i'r ddau grŵp fynychu ac unwaith eto cymysgwch y grwpiau ar gyfer gweithgareddau gymaint ag y bo modd heb wneud iddynt deimlo'n rhy anghyfforddus. Gall gweithgareddau preswyl, tra'u bod yn anoddach ac yn fwy costus i'w trefnu, fod yn ffordd wych o gael pobl ifanc i gymysgu a dysgu am ei gilydd. Gellir defnyddio cyfleoedd cyfnewid rhyngwladol i ddod ag ystod llawer ehangach o bobl ifanc i gysylltiad â'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae mwy o wybodaeth am drefnu'r rhain ar gael yn y Llawlyfr ar Gyfnewidfeydd Ieuentid.

Dosbarth Cymraeg

Mae nifer o bobl all helpu i gynnal sesiwn Cymraeg ar gyfer staff a phobl ifanc. Gallai hyn fod yn ddosbarth syml iawn rhagarweiniol, efallai fel sesiwn blasu. Efallai bod staff neu bobl ifanc o fewn y grŵp a allai ei redeg. Efallai y bydd yr ysgol neu goleg Cymraeg lleol, neu adran addysg gydol oes eich awdurdod lleol, yn gallu helpu am gost fechan neu am ddim i gychwyn.

Cystadlu mewn Eisteddfodau

Mae rhai pobl ifanc yn naturiol yn hoffi perfformio neu gystadlu. Efallai byddant yn awyddus i gystadlu mewn Eisteddfodau lleol neu genedlaethol. Darganfyddwch pwy sy'n ei threfnu a pha bryd a ble mae'n cael ei gynnal. Darganfyddwch pa gystadlaethau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal a pha lefel o Gymraeg sydd ei angen i gystadlu. Efallai y bydd rhai yn cael digwyddiadau lle nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn un o'r prif ofynion, e.e. Dawnsio, Chwaraeon neu Gerddoriaeth.

Y Gymraeg ar yr Agenda

Rhowch yr iaith Gymraeg ar agenda ar gyfer pob cyfarfod rheolaidd rhwng staff a phobl ifanc. Gwnewch yn siŵr eich bod wedyn yn cymryd i ystyriaeth darparu cyfleoedd iaith Gymraeg ar gyfer unrhyw bobl ifanc Cymraeg eu hiaith sy'n mynychu yn ogystal â chefnogi pobl ifanc di-Gymraeg i gymryd rhan ynddynt.

Sefydlu Polisi Iaith Gymraeg

Os ydych yn rhan o fudiad ieuenctid mawr gall hyn eisoes fod yn eu lle yn strategol, ond ydy'n effeithio ar y grŵp lleol? Er ei fod yn swnio yn beth anodd iawn i'w ddatblygu, gallai olygu rhoi at ei gilydd peth o'r dysgu sydd eisoes wedi eu codi ar ôl cychwyn y gweithgareddau iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darganfod beth mae'r ddeddfwriaeth ar y Gymraeg yn ei ddweud a pha faterion mae'r cysylltiadau neu'r partneriaethau gyda mudiadau ieuenctid Cymraeg eraill wedi'u nodi. Dylech ei argraffu a'i roi i fyny ar wal y prosiect ieuenctid fel math o 'addewid' i bobl ifanc a'r gymuned.

Fforwm Datblygu Ieuenctid

Gwnewch yn siŵr bod barn pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cymryd i ystyriaeth ynghylch y modd y cynhelir cyfarfodydd y Fforwm Ieuenctid a bod y penderfyniadau a wneir yn cynrychioli eu barn a bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynrychioli ar y grŵp.

Sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae datblygu sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ffordd wych o ryngweithio gyda phobl ifanc a chael pobl ifanc i ryngweithio â diwylliant Cymru. Gall y sesiynau gynnwys gofyn i bobl ifanc am eu barn pan fyddant yn meddwl am Gymru, darganfod sut mae pobl ifanc hyderus yn defnyddio'r Gymraeg, a datblygu taflenni gwybodaeth ar yr iaith Gymraeg.

Bydd pobl ifanc yn awyddus i gael gwybod pa mor bwysig mae'r iaith Gymraeg wedi bod i'w cyndeidiau a gallent gael eu synnu i wybod yr ymdrechion a wnaethon nhw er mwyn ei siarad. Yn y 19eg Ganrif, mewn rhai ysgolion, roedd siarad Cymraeg wedi'i wahardd, ac os oedd plentyn yn gwneud hynny, byddai ef / hi yn cael y 'Welsh Not'.

Byddai hyn yn cael ei basio ymlaen i'r nesaf a oedd yn siarad yn Gymraeg tan ddiwedd y diwrnod ysgol pan fyddai'r disgybl a oedd yn ei wisgo yn cael ei gosbi / ei chosbi. Gall edrych ar hanes yr iaith mewn mwy o fanylder sefydlu balchder llawer cryfach ac awydd i ddysgu. Gellir darganfod mwy ar:

http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/society/language_education.shtml

Sesiynau Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

Mae hanes a diwylliant yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae hanes Cymru yn llawn o ymladd am yr hawl am gydraddoldeb yn erbyn cefndir o waith caled a datblygiad diwylliannol. Brwydrodd mudiad y Siartwyr a oedd yn ffynnu mewn cyfnod anodd, am bleidlais i bawb (er mai dim ond i ddynion oedd hyn ar y pryd!) ac nid dim ond y bobl elitaidd a oedd yn rhemp yng Nghymru gan arwain at y Terfysg enwog yng Nghasnewydd.

<http://en.wikipedia.org/wiki/Chartism>

Cymerodd dynion a oedd yn gweithio'n galed yn y pyllau glo ac yn y ffwrneisi'r gwaith haearn amser o'u gwaith i ymladd dros hawliau cyfartal. Mewn ardaloedd eraill, buont yn gweithio mewn amodau ofnadwy i dorri llechi. Ar yr un pryd, enillon nhw enwogrwydd am gerddoriaeth, y gyda'r rhan fwyaf ohono yn yr iaith Gymraeg ac mae hyn yn parhau hyd heddiw.

Yn y byd chwaraeon, mynnodd cyn reolwr tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru, Gary Speed bod ei dîm nid yn unig yn gallu canu'r anthem genedlaethol ond hefyd eu bod yn gwybod ystyr y geiriau os oedd chwaraewr yn uniaith Saesneg.

Mae'r rhain i gyd yn faterion i bobl ifanc eu trafod ac i ddod yn ymwybodol o pam fod yr iaith Gymraeg yn bwysig i fod yn Gymry.

Gweithio gyda'r URDD

Mae Eisteddfod Urdd yn teithio o amgylch Cymru yn flynyddol gyda mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan ynddo nag sy'n cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd. Mae Eisteddfodau lleol, Eisteddfodau sirol a'r gystadleuaeth genedlaethol. Mae cystadlaethau traddodiadol Cymreig, sy'n unigryw i ddiwylliant Cymru, megis cerdd dant a dawnsio traddodiadol Gymreig i hip hop a chaneuon roc. Yn 2010, ymwelodd dros 90,000 o bobl â'r Eisteddfod yng Ngheredigion. Mae'n llwyfan gwych i bobl ifanc arddangos eu talentau a dathlu diwylliant Cymru.

Mae yna rai digwyddiadau sy'n seiliedig ar weithgaredd, dawns er enghraifft, lle mae gwybodaeth o'r iaith Gymraeg yn gallu bod yn ddiwbys. Cystadlu neu beidio, mae ymweliad â'r Eisteddfod yn ffordd dda o archwilio diwylliant a chwrdd â phobl ifanc eraill.

Mae hefyd gan yr Urdd 3 chanolfan preswyl ar draws Cymru yng Nglan-llyn ger Y Bala, Llangrannog ac ym Mae Caerdydd. Mae'r canolfannau yn cynnig pob math o

weithgareddau a phrofiadau gyda staff sy'n siarad Cymraeg a gyda phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Cynllun Gwobr Dug Caeredin

Gall siaradwyr Cymraeg ifanc a dysgwyr ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg ym mhob un o 4 rhan Gwobr Dug Caeredin. Efallai y byddant am ddatblygu eu Cymraeg fel sgil trwy wirfoddoli gyda grŵp neu ysgol Gymraeg neu ddefnyddio eu Cymraeg yn ystod sesiynau chwaraeon a / neu ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg o fewn y daith.

Bydd astudio unrhyw fap Arolwg Ordnans o Gymru yn nodi enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd, ffermydd, nentydd, traethau a llawer mwy yn Gymraeg. Bydd pobl ifanc yn y grŵp yn gallu cyfieithu neu ddysgu ystyr y rhain i'w hegluro fel rhan o gyflwyniad ar y daith. Os yw pobl ifanc ar eu taith arian neu aur yn ymweld â Bannau Brycheiniog, neu Eryri, efallai y byddant am archwilio ystyr y mynyddoedd megis "Carnedd Llewelyn" neu "Mynydd Du", neu hyd yn oed, os ydynt yn ceisio am eu gwobr efydd ar dir haws, megis y Gŵyr, ystyr "Llangennith" neu "Penclawdd". Mae enwau lleoedd yr un mor diddorol os ydynt yn ceisio am Wobr Dug Caeredin ar hyd Clawdd Offa, gydag enwau Cymraeg ar nifer o ffermydd a mynyddoedd dros y ffin yn Lloegr gyda thirnodau diddorol megis "Capel y Ffin".

Isod ceir yr adrannau o Wobr Dug Caeredin ble mae posibilïadau i o ddefnyddio'r Gymraeg;

Sgiliau - datblygu doniau presennol neu roi cynnig ar rywbeth newydd

Gweithgaredd Corfforol - dod yn fwy heini drwy weithgareddau chwaraeon, dawns neu ffitrwydd

Gwirfoddoli - helpu rhywun, eich cymuned neu'r amgylchedd

Alldaith - Cynllunio, hyfforddi ar gyfer a chwblhau taith anturus

Cyfranogi

Mae cyfranogiad effeithiol gyda phobl ifanc yng Nghymru yn ddarpariaeth ddwyieithog sy'n golygu y gall pobl ifanc ryngweithio a lleisio eu barn yn yr iaith o'u dewis. Rhaid i'r dewis i ddefnyddio'r iaith Gymraeg fod yn un cadarnhaol ac yn ddewis hawdd i bobl ifanc, nid yn un sy'n golygu bod y gwasanaeth yn anodd ac yn creu problemau.

Mae gwaith cyfranogi gyda phobl ifanc yng Nghymru hefyd yn golygu trafod yr iaith ac archwilio pa gyfleoedd sydd gan bobl ifanc i'w ddefnyddio o fewn yr ysgol a'r gymuned.

Mewn llawer o ardaloedd mae fforymau ieuencid i alluogi pobl ifanc i leisio'u barn. Darganfyddwch pa fforymau ieuencid neu gynghorau ieuencid sy'n bodoli yn eich ardal a sicrhau bod pobl ifanc, boed yn siarad Cymraeg neu Saesneg, yn cael cyfle i gymryd rhan a chael eu clywed yn yr iaith o'u dewis.

Chwaraeon

Mae Urdd Gobaith Cymru, er enghraifft, yn cynnig cystadlaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer ysgolion, grwpiau ieuencid ac unigolion mewn pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, nofio a llawer mwy, drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae nifer o Swyddogion Datblygu Chwaraeon yr Urdd yn gweithio ar draws Cymru yn helpu datblygu cyfleoedd chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg i gymaint o bobl ifanc â phosibl.



Addysg Awyr Agored

Mae nifer o ddarparwyr gwaith ieuencid yn defnyddio arbenigwyr addysg awyr agored i ddarparu gwaith ieuencid a bydd rhai yn darparu hyn eu hunain. Mae yna rai darparwyr sy'n cynnig y cyfle hwnnw yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hyfforddiant

Mae rhai mudiadau ieuencid yn darparu hyfforddiant gwaith ieuencid trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn benodol Cwrs OCN 2, a elwir weithiau yn Senior Member Training (ar gyfer datblygu arweinwyr ifanc mewn gwaith ieuencid) ac mewn rhai achosion NVQ / VRQ 3 mewn astudiaethau gwaith ieuencid. Mae'r cyrsiau hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth posibl.

Cyflogaeth

Gall yr iaith Gymraeg, mewn sawl achos, fod yn ased pwysig i bobl ifanc ei defnyddio wrth chwilio am waith yng Nghymru. Mae nifer o sefydliadau yn gofyn am y gallu i fod yn ddwyieithog neu siarad Gymraeg yn y gweithle.

Cyfnewidiadau Ieuenctid Rhyngwladol

Mae nifer o sefydliadau ieuenctid yn cynnig y posibilrwydd o gyfnewid gwaith ieuenctid rhyngwladol i bobl ifanc ac mae rhai enghreifftiau o gyfnewidiadau Gymraeg a dwyieithog. Er enghraifft, cyfnewidfeydd ieuenctid Cymru / Patagonia trwy Menter Patagonia www.menterpatagonia.org a chyfnewid ieuenctid Iwerddon/Cymru 4 Corners. Edrychwch ar y Llawlyfr ar Gyfnewidfeydd Ieuenctid am fwy o wybodaeth.

Gwefannau

Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdod lleol wedi datblygu gwefannau i roi gwybodaeth am gyfleoedd i bobl ifanc gan gynnwys rhai drwy gyfrwng y Gymraeg. Darganfyddwch a oes un yn eich ardal a cheisiwch wneud yn siŵr bod yr holl weithgareddau y mae eich pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt yn cael eu proffil cadarnhaol ar y wefan, gan gynnwys cyhoeddusrwydd i'ch gweithgareddau Gymraeg a dwyieithog er mwyn recriwtio aelodau newydd ac i roi gwybodaeth i bobl am yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Mae gan nifer o fudiadau ieuenctid gwefannau dwyieithog. Gellir gweld y wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg neu Saesneg a gall pobl ifanc wneud sylwadau ar erthyglau neu gyflwyno erthyglau yn y naill iaith neu'r llall.



Creu'r Awrygylch

Os yw'r iaith Gymraeg yn weladwy o fewn eich lleoliad, gall greu awrygylch croesawgar a bydd pobl ifanc yn fwy ymwybodol ohono. Dylai lleoliadau gwaith ieuencid awdurdodau lleol, o dan ddeddfwriaeth Deddf yr Iaith Gymraeg, ddarparu arwyddion dwyieithog fel y dylai sefydliadau gwirfoddol sydd yn derbyn cyllid llywodraeth genedlaethol neu leol, naill ai fel arian neu mewn da. Bydd yr adran gyfieithu o fewn yr awdurdod lleol yn gallu helpu gydag arwyddion, posteri, polisïau a llenyddiaeth. Mae yna hefyd swyddog polisi'r iaith Gymraeg i helpu datblygu polisi a mynd i'r afael ag ef.

Mewn lleoliad ieuencid gwirfoddol, blaenoriaethwch arwyddion a phosteri mae pobl ifanc yn eu gweld yn aml, yn hytrach na chyfieithu polisïau does neb yn eu darllen yn y naill iaith neu'r llall. Wrth i fwy o waith gael ei gyfieithu neu weithgynhyrchu, bydd mwy yn o bethau ar gael a bydd yn dod yn rhywbeth mwy cyffredin.

Byddwch yn ofalus gyda gwaith cyfieithu a gwnewch yn siŵr bod y ddwy iaith yn gywir a'u bod ddim yn cynnwys camgymeriadau neu wallau teipio. Gall greu'r argraff nad yw'n bwysig a hyd yn oed, mewn rhai achosion, bod y Gymraeg yn 'israddol' ac mae Saesneg yw'r unig iaith o bwys.

Gallwch gael cyfieithiadau byr yn Gymraeg am ddim drwy'r Llinell Gyswilt : -

www.llinellgyswilt.co.uk

0845 607 6070

cyswilt@bwrdd-yr-iaith.org.uk

Gall gyfieithu arwyddion fod yn ffordd arall o drafod y Gymraeg a Diwylliant Cymru o fewn sefydliad a'i waith gyda phobl ifanc.

Enghreifftiau o Arfer Da

Dyma rai enghreifftiau o arfer da mewn rhannau gwahanol o Gymru wrth sefydlu polisi gwaith ieuentid a gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog. Bydd mwy o enghreifftiau ar draws Cymru, a gellir eu hychwanegu at y rhestr hon.

- **Cytundeb Partneriaeth rhwng Menter Iaith Abertawe a Gwasanaeth Ieuentid Dinas a Sir Abertawe**

Mae gan Menter Iaith Abertawe Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol i ddarparu gwasanaeth ieuentid trwy gyfrwng y Gymraeg yn Abertawe. Mae hyn yn cynnwys cynnal clybiau ieuentid trwy gyfrwng y Gymraeg, Senior Member Training trwy gyfrwng y Gymraeg a llawer mwy.

- **Fforwm Ieuentid yr Urdd yng Ngheredigion**

Mae 2 aelod o bob ysgol gyfun yng Ngheredigion yn aelodau o Fforwm Ieuentid yr Urdd. Mae'r fforwm yn ffordd wych i bobl ifanc gymryd rhan yng ngwaith yr Urdd ac mae'n golygu bod llais y bobl ifanc yn cael ei glywed yn y sefydliad.

- **Cyngor Sir Powys Gweithiwr Ieuentid Rhanbarthol trwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae Cyngor Sir Powys yn cyflogi gweithiwr ieuentid sy'n rhedeg clybiau ieuentid trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal De Powys. Mae'r clybiau yn cwrdd yn wythnosol, maen nhw wedi mwynhau penwythnosau preswyl a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol.

- **Prosiect Ieuentid Sir Fynwy**

Cymerodd grŵp o bobl ifanc o dair ardal o Gasnewydd, ynghyd â grwpiau o Sir Fynwy a Thorfaen, ran mewn tri diwrnod preswyl yng Nghanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Gilwern i ddatlu'r Eisteddfod. Cymerodd y bobl ifanc ran mewn gweithgareddau adeiladu tîm, gweithgareddau diwylliannol a rhai yn ymwneud â'r Gymraeg ac aethant am ddiwrnod i Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nglynebwy.

- **Llais Ni**

Sefydlwyd Llais Ni yn 2008 ac mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn. Mae'n arbenigo mewn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed ar bynciau sydd o bwys iddynt megis ysgolion, clybiau ieuentid, gweithgareddau hamdden a gwasanaethau trafndiaeth ar yr ynys. Mae 5 fforwm lleol ac mae pobl ifanc o bob un hefyd yn aelodau o'r Fforwm Sirol. Yn gynharach eleni enillodd Llais

Ni enill Gwobr Rhagoriaeth Ieuencid Cenedlaethol ar gyfer eu gwaith cyfranogol.

Adnoddau

Mae gan nifer o sefydliadau ledled Cymru adnoddau Cymraeg a Saesneg i'w defnyddio mewn gwaith ieuencid ymarferol a'r theori. Lle da i ddechrau yw gyda Changen Strategaeth Gwaith Ieuencid Llywodraeth Cymru sy'n cadw Llawlyfrau hyn ac eraill yn gyfoes. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Sam Evans yn:

Evans, Sam (APADGOS - CYPS) Sam.Evans@wales.gsi.gov.uk

Mae gan Llywodraeth Cymru lyfrgell o adnoddau ar gyfer gwaith ieuencid a gwybodaeth arall a fydd yn cynorthwyo gyda'r gwaith. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Phil Sebury yn: phil.sebury@wales.gsi.gov.uk
029 2080 1111

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/leisure/youthwork/collection/?skip=1&lang=CY>

Isod ceir detholiad o adnoddau i'w defnyddio ar gyfer gwaith ieuencid neu arferion gwaith ieuencid dwyieithog neu arfer sy'n cael ei gyflwyno yn Gymraeg. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gellir ychwanegu ato.

Agor Dau Ddrws

http://www.estynllaw.org/uploads/opening_both_doors_2008_terfynol_29_09_08.pdf

Cyngor Gofal Cymru - 'Dwy Iaith Dau Ddewis'

<http://www.cgymru.org.uk/dwy-iaith-dau-ddewis/>

Canllawiau Blast Off Cyfranogiad Cymru

Gan gynnwys canllaw i annog cyfranogiad dwyieithog (Cymraeg / Saesneg):

<http://www.participationworkerswales.org.uk/resources.aspx>

Hyfforddiant Gwaith Ieuencid - Mae Coleg Cymunedol YMCA Cymru yn darparu hyfforddiant gwaith ieuencid trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys Gwobr Lefel Dau mewn Gwaith Ieuencid a Tystysgrif Lefel Tri mewn Gwaith Ieuencid. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn darparu hyfforddiant ieuencid cyfrwng Cymraeg i weithiwr.

<http://www.ymca-wales.ac.uk/standardised-course-outlines/c/373/>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg

Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Sut i greu Polisi Iaith Gymraeg

<http://www.byiq-wlb.org.uk/>

Cysylltiadau Gwaith Ieuenctid a'r Gymraeg

Mae llawer o sefydliadau, gwirfoddol a statudol, yn cynnig darpariaeth ieuenctid ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mentrau Iaith Cymru

www.mentrau-iaith.com

Mae Mentrau Iaith yn sefydliadau lleol sy'n cynnig cymorth i gymunedau gynyddu a datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae Menter Iaith fel arfer yn gwasanaethu sir gyfan ac yn adlewyrchu awydd pobl leol i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith. Bydd Menter yn cynnig cyngor a chymorth i unigolion, sefydliadau a busnesau mewn partneriaeth â chymunedau ac awdurdodau lleol ac yn trefnu gweithgareddau er mwyn codi proffil yr iaith Gymraeg.

Urdd Gobaith Cymru

www.urdd.org

Mae'r Urdd yn fudiad cyffrous a deinamig i blant a phobl ifanc sy'n trefnu amrywiaeth o weithgareddau gwahanol. Mae ganddo 16 swyddog datblygu sy'n gweithio ledled Cymru i sicrhau ei fod yn cynnig rhaglen lawn o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Sefydlwyd yr Urdd yn 1922 i roi cyfle i blant a phobl ifanc sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg ddysgu, cymdeithasu a byw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg ac, ar yr un pryd, parchu ei gilydd a phobloedd y byd.

Ffermwyr Ifanc